

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 08.02.23 am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Keith Carroll (KC – Cadeirydd), Jane Lawrence (JL), Geraint Micah (GM)
Geraint Edwards (GE), David Griffiths (DG), Ian Williams (IW), Huw Davies (HD)
Jenny Warne (JW), Francesca Pridding (FP), Louise Hughes (LH - Cynghorydd Sirol),
Howard Bevington (Clerc), Jane Jenkins (Clerc Newydd).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Nicola Roberts (NR).

3. **Datgan Diddordeb:** Dim ar hyn o bryd.

4. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd – 14.12.22.
Cynnig: GE **Eiliwyd:** FP.

5. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol:** 14.12.22

a) **Diffibriliwr**

Mae'r blwch diffibriliwr bellach wedi'i osod ar bostyn gyferbyn â'r Tai Cyngor, yn Rhoslefain.
Mae £50 eto i ddod mewn o'r arian sydd wedi ei godi, i fynd tuag at dalu am "padiau" newydd i'r diffibriliwr.

b) **Cytundeb Cyflogaeth a thâl y Clerc Newydd**

Gadawodd JJ yr ystafell a chafwyd trafodaeth. Cadarnhaodd y cadeirydd mai dim ond JJ oedd wedi gwneud ymholiadau am swydd y Clerc, a bod gan JJ nifer o sgiliau a fyddai'n briodol i'r swydd. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau a dychwelodd JJ i'r ystafell lle gofynnwyd iddi gysylltu â'r clerch presennol a chymryd y swydd drosodd cyn gynted â phosibl. Mae cytundeb templed ar ffeil a cytunwyd y byddai'n parhau â'r cyflog sy'n rhedeg ar hyn o bryd tan 31 Mawrth 2023, ac yna'n symud i gyfradd newydd - i'w chytuno. Y cynnig oedd graddfa 12 pro rata ond byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal i drafod y sefyllfa'n ffurfiol gyda hi. Llongyfarchodd y cadeirydd y clerch newydd ar ei llwyddiant.

I'w weithredu gan – Y Cadeirydd – KC.

c) **SARPA** - Cafodd y drafodaeth hon ei gohirio o Fis Tachwedd 2022 – felly ail-ddarllenodd y clerch yr e-bost a'r llythyr. Cytunwyd bod y cyngor yn talu'r ffi ymuno o £10 ac yn adolygu'r sefyllfa ar ôl blwyddyn.

d) **Prisiau cynnal a chadw**

Datganodd DG a GM ddiddordeb a gadawodd y ddau yr ystafell, er mwyn i'r aelodau eraill gallu trafod. Gofynnwyd i'r clerch gael prisiau i mewn, ac y byddai DG a GM yn tendro. Byddai hysbyseb yn cael ei roi ar y cyfryngau cymdeithasol gan FP a byddai'r clerch yn dod â'r holl dendrau i'r cynghorwyr drafod yn y cyfarfod nesaf. Manyleb i gael ei hanfon at bawb sydd â diddordeb.

I'w weithredu gan – Y Clerc

6. **Gohebiaeth wedi eu derbyn**

a) Derbyniwyd llythyr gan Ambiwlans Awyr Plant yn gofyn am gyfraniad ariannol.
Cytunwyd y byddai £250 yn cael ei gyfrannu. **I'w weithredu gan – Y Clerc**

b) Derbyniwyd a chyfnewidiwyd e-byst gan FP a gyflwynodd gais am grant ar ran y Cyngor Cymuned am "Meeting Owl", sef grant ar gyfer gwella mynediad digidol i ddemocratiaeth.

- c) Derbyniodd y cadeirydd ohebiaeth gan Mike Senior ynglŷn ag adnewyddu y padiau ar y diffibriliwr tu allan Y Ganolfan, yn Llwyngwrlil.
Mae angen eu harchebu o'r storfa diffibriliwr am £55 y pâr, a TAW. Bydd y cadeirydd yn trosglwyddo'r manylion i'r cler. Trafodwyd a chytunwyd y dylid gofyn i Mike Senior gwrdd â'r cynghorwyr i checio'r offer yn rheolaidd, er mwyn gwneud yn siwr fod yswiriant y Cyngor Cymuned yn parhau i fod yn ddilys. Teimlai'r cynghorwyr y dylai arbenigwr wneud hyn gan nad oedd ganddynt hwy y wybodaeth feddygol i wneud yr archwiliadau yma.
I'w weithredu gan – Y Cadeirydd – KC.

7. Materion Cynllunio

NP5/69/415 – Coed Mawr, Llwyngwrlil, LL37 2QH - adeiladu adeilad amaethyddol.

Derbyniwyd hwn ddiwrnod ar ôl y cyfarfod diwethaf felly fe'i e-bostiwyd at y cynghorwyr yn syth bin er mwyn iddynt edrych ar yr atodiadau ac efallai ffurfio barn. Ni dderbyniodd y cler unrhyw adborth, ac roedd y 21 diwrnod bellach wedi mynd heibio.

Gofynnodd un cynghorydd pam ei fod wedi cael ei e-bostio gan nad oedd modd ei drafod tan gyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned beth bynnag. Cynigiwyd hefyd y gallai mewnbwn gael ei anfon ymlaen gan y cynghorwyr ar ôl y 21 diwrnod oherwydd oedi yn y swyddfa gynllunio - dylid dal ystyried unrhyw fewnbwn pellach.

8. Adroddiad Ariannol

Cadarnhawyd fod y datganiadau banc perthnasol wedi cyrraedd y cler, or diwedd, ac adroddwyd ar y sefyllfa ddiweddaraf hyd at 21/01/23. 'Roedd yr adroddiad ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau banc.

Cynnig: HD Eilio: JW.

9. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr

Cadarnhad fod gwaith adnewyddu gegin y Ganolfan wedi'i gwblhau a bod y gegin yn barod i'w defnyddio.

10. Adroddiad y Cynghorydd Sirol

Dychwelodd LH yn ol ar ôl cyfnod o salwch, ond doedd dim adroddiad ganddi nag unrhyw ymateb i ohebiaeth ynglŷn â'r wal a rhwystrau diogelwch ar y ffordd ger Friog. Cafwyd trafodaethau ynglŷn â pwy i gysylltu â yn Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru a cytunodd i ddilyn i fyny eto. **I'w weithredu gan – Louise Hughes.**

Cadarnhaodd LH hefyd y bydd y ffordd yn Arthog (A493) yn cau o 18/02/23 am ddeg diwrnod.

11. Unrhyw Fater Arall

Cadarnhawyd fod dyddiad carnifal y pentref wedi eu gytuno at yr haf – sef 12/08/23. Pwyllgor Cynllunio i gynnal cyfarfodydd pellach i drefnu'r manylion.

Tarmac rhydd ger y cae geifr yn Llwyngwrlil yn beryg i'r cyhoedd - angen rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd. **I'w weithredu gan – Louise Hughes.**

Dim gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ynglŷn a llinellau melyn dwbl ger y cae chwarae a gyferbyn â'r siop, a hefyd y llinellau gwyn yn y maes parcio ger y toiled cyhoeddus. Mae angen cysylltu ag Adrian Wyn Williams, Cyngor Gwynedd. **I'w weithredu gan – Y Clerc.**

Biniau Halen Llwyngwrlil a Rhoslefain angen ei checio, a cysylltu ag Adrian Wyn Williams i ofyn iddo drefnu eu llenwi. **I'w weithredu gan – Y Clerc.**

Nodwyd fod yr arwydd/rhybudd bod creigiau'n disgyn i'r ffordd (ar y ffordd rhwng Friog a Llwyngwrlil) wedi ei orchuddio felly mae angen hysbysu'r Cyngor. **I'w weithredu gan – Y Clerc.**

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher - 08.03.23 - am 7 o'r gloch - YGanolfan, Llwyngwrlil

Arwyddwyd

Cadeirydd Dyddiad